

Parc Cenedlaethol Ardordir Penfro

# Mynydd Dinas

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



**GRADDFA:** 0 400 800 m

**PELLTER/HYD:** 4.6 milltir (7.4 km) 2 awr 30 munud

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Dinas 412,  
\*Poppit Rocket 405 (\*tymhorol, galw a teithio)

**CYMERIAD:** Cerdded ar y brynau, rhostir garw, da byw, 1.7 milltir (2.75 km) ar drac  
fferm isffordd, rhigolwg a mwldyd mewn manau


**CHWILIWCH AM:** Golygfeydd gwych o'r arfordir tua'r tir • hen bentreflannau fferm

## COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

## ALLWEDD

- ● ● ● Llwybr Cylch
- — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro  
Llwybr Cenedlaethol
- - - - Llwybrau Cyhoeddus
- P Parcio Cyfyngedig
- 🚌 Safle Bws



# Mynydd Dinas

## Teuthiau Hanner Dydd a Mwy

**Hyd:** 2 awr 30 munud

**Length:** 4.6 milltir (7.4 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Dinas 412, \*Poppit Rocket 405 (\*tymhorol, galw a teithio).

**Cyfeirnod map:** SN011383

Mae'r golygfeydd o gopa Mynydd Dinas yn gallu bod yn odidog. Ar ddiwrnod arbennig o glir, mae'n bosib gweld penrhyn Llyn yn y pellter i'r gogledd a hyd yn oed Mynyddoedd Wicklow yn Iwerddon.

Yn nes adref, ar gopa gwylaidd y bryn rydych chi tua 300m (984tr) uwchben lefel y môr ac mae'n safle gwych i weld y gyfres o bentiroedd sy'n nodweddiadol o arfordir gogledd Penfro.

Ychydig islaw Mynydd Dinas mae'r penrhyn a elwir yn Ynys Dinas. Nid ynys mohoni o gwbl - mewn gwirionedd mae wedi ei chysylltu at yr arfordir trwy gors isel.

Mynyddoedd y Preseli yw'r mynyddoedd uchaf yn Sir Benfro ac maen nhw wedi eu gwneud o garreg laid a siâl Ordoficaidd sydd wedi'i gywasgu i ffurfio llechi gwydn. Mewn manau, mae yna ddarnau o ryolit a dolerit hefyd, sef y garreg las enwog sy'n ffurfio cylch mewnol Côr y Cewri (Stonehenge).

Yn Dinas mae'n edrych fel petai'r Preselau yn codi'n syth allan o'r môr ac o bentref bach Dinas Cross rydych chi ar y rhostir agored yn eithaf cyflym. Mae llawer o ucheldir y Preselau yn gorsiog ac mae'r pridd yn asidig, sy'n golygu bod planhigion fel ffynidfwsgl, llysiâu'r afu, rhedyn a thegeirianau'n ffynnu. Yn hwyr yn yr Haf mae lliw pinc cynnes y grug yn ychwanegu cyfoeth o liw at y dirwedd.

Wrth i chi gerdded, chwiliwch am fwncathod a chigfrain ac efallai y gwelwch chi ylfenir, sef rhydiwr sydd â phig hir sy'n crymu am i lawr ac sy'n bwydo ar rostir gwlyb.

I raddau helaeth, mae rhostir y Preseli yn dir pori cyffredin. Mae nifer fawr o ddefaid yn pori'r bryniau ochr yn ochr â merlod gwydn y Preseli.

Fe all y mynyddoedd deimlo'n unig heddiw ond maen nhw'n gyfoeth o gliwiau i bresenoldeb cenedlaethau cynharach. Yn agos at y llwybr yn Trelwyn mae'r Parc Meirw, sef grŵp o gerrig sefyll y credir eu bod yn dyddio o'r Oes Efydd.